# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 21
MAWRTH 2009

Ar hyd y canrifoedd, neilltuwyd cyfnod penodedig gan Eglwys Iesu Grist i ddiben ympryd, myfyrdod a gweddi. Yr enw ar y tymor hwn yw'r Grawys, sef y tymor o ddeugain niwrnod sy'n arwain at y Pasg, ac sy'n cyfateb i'r deugain dydd a deugain nos y bu'r Arglwydd Iesu'i hun yn ymprydio yn yr anialwch ac yn goddef ei demtio gan Satan. Yn hynny o beth, y mae'n ddiddorol mai o'r gair Lladin *"quadragesima,"* sy'n golygu "deugain," y daw'r gair Cymraeg "grawys." Nid yw'r Sais yn cyfeirio at y tymor yn y dull hwnnw, gan iddo'i alw'n *"Lent,"* hen derm sy'n tarddu o'r gair Saesneg *"length,"* oherwydd mai yn y Gwanwyn, pan fo'r dydd yn "ymestyn" y digwydd y tymor.

Er bod cadw'r Grawys yn hen, hen arfer, ychydig o Gristnogion erbyn hyn sy'n ymprydio ac yn cadw'r ddisgyblaeth yn gydwybodol megis cynt. Sut felly y dylem ni fel aelodau o Eglwys Iesu Grist yn ardaloedd Aberystwyth a Phenrhyn-coch ymateb i'r cyfnod hwn mewn oes ôl-Gristnogol? Tybed a fyddwn yn barod i fyw ar fara a dŵr am ddeugain niwrnod? Neu a fyddwn yn ystyried gwneud penyd am ein pechodau drwy ymroi i weithgarwch crefyddol dwys, megis myfyrdod, addoliad a gweddi? Ac os na wnawn ni hyn, a oes yna unrhyw ddiben i'r Grawys o gwbl?

Wel, oes yn wir! Onid yw'r Grawys yn gyfle inni ymbaratoi ar gyfer dathlu Gŵyl fwyaf y calendr Cristnogol, sef Gŵyl y Pasg? Onid y cyfnod hwn yw'r drws sy'n agor i bresenoldeb y Crist atgyfodedig? Ac onid un o'r pethau cyntaf sydd angen inni ei wneud yw troi ein golygon i gyfeiriad Jerwsalem a chofio bod gan y deugain niwrnod yma arwyddocâd sanctaidd a phwysig yn hanes bywyd a gwaith yr Arglwydd Iesu? Y mae'r Grawys yn ein gwahodd o'r newydd i fynd ar daith gyda'r Iesu ac i ddyfnhau a chryfhau ein dealltwriaeth o'i waith trosom.

Un o'r pethau y byddaf yn ceisio'i wneud yn ystod y pedair wythnos nesaf fydd darllen llyfr gan ŵr o'r enw Stephen Cottrell, Esgob Reading. Teitl y llyfr yw "The Things He Carried," ac y mae'n fyfyrdod am y pethau y bu i'r Iesu'u cario ar y ffordd i Galfaria, megis y groes, y goron ddrain a'r wisg borffor. Ac fel petai'r rhain ddim yn ddigon iddo'u cario, meddai Stephen Cottrell, fe gariodd yr Arglwydd Iesu bethau eraill hefyd. Fe gariodd bwysau dybryd yn ei galon: siomedigaethau ei ddilynwyr, pechodau'r byd a thrallod ei bobl. O dan straen yr holl bwysau yma torrwyd calon yr Iesu. Ond fel y dywed awdur y llyfr, yn goron ar y cyfan, fe gariodd Iesu obaith Duw. Ac o ganol y tristwch, y poen a'r dioddefaint fe ffrydiodd gobaith newydd ar gyfer dynolryw. Gwelwn y gobaith newydd hwn ar groesbren Calfari yng ngwedd y Crist atgyfodedig ac yng ngwaith yr Eglwys heddiw, y gobaith newydd sy'n mynnu rhoi ei Deyrnas Ef ar waith.

Boed i bawb ohonom ymateb i her y Grawys yn y dull y teimlwn sydd fwyaf addas ar ein cyfer ac sydd orau gennym: drwy fyfyrdod, ympryd neu weddi. Ond pa ffordd bynnag a ddewiswn, boed i ni gael ein harwain ganddo Ef i dir y gobaith newydd.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn: 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS MAWRTH 2009**

| Cyhoeddwr y Mis | Richard Wyn Davies Organydd y mis : Mair Evans | |
|---|---|---|
| 1 Mawrth 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun Rhiannon Humphreys |
| 8 Mawrth 10.30 | Oedfa deuluol: Gweinidog. | |
| 15 Mawrth 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa bregethu: Gweinidog | Te:Mona a Mair |
| 22 Mawrth 10.30 | Clwb Sul bach ac oedfa Gweinidog | |
| 5 Ebrill<br>2.30 | <br>Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Sue Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**

**2 Mawrth :** Dydd Llun Cinio Bara Caws : Cymorth Cristnogol yng Nghanolfan San Paul: 12.00-1.30
**4 Mawrth** : Cymun Canol Dydd : Bethel
**8 Mawrth :** Nos Sul : Ymarfer Côr Eisteddfod Penrhyn-coch : Festri Horeb am 7.30yh
**10 Mawrth :** Nos Fawrth Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30
**11 a 25 Mawrth :** Dydd Mercher Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
**14 Mawrth :** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Richmond. Gŵr gwadd :Phil Davies Enwau i Ceris
**16 Mawrth** : Nos Lun : Cyfarfod Diaconiaid am 7.30yh
**18 Mawrth** : Cymdeithas Bethel am 2.00yp
**18 Mawrth** : Nos Fercher : Darlith Gyhoeddus : Drych Aneglur : Duw a Dyn – a Dawkins. Traddodir gan yr Athro Gwyn Thomas. Hen Neuadd. Yr Hen Goleg am 7yh.
**19 Mawrth** : Nos Iau : Os Mêts
**26 Mawrth :** Nos Iau **:** Os Mêts: Noson Gemau yn Horeb am 7yh.
**28 Mawrth :** Nos Sadwrn**:** Côr Ieuenctid Methodistaidd Prydain : Canolfan San Paul : 7.30yh Mynediad :£5 (Plant gydag oedolyn £1)
**30 Mawrth** Nos Lun Cyfarfod diaconiaid Bethel a Horeb ym Methel am 7.00
**1 Ebrill** Nos Fercher Swper y Pasg yn Festri Horeb
**9 Ebrill :** Oedfa Nos Iau Cablyd : Eglwys Dewi Sant : Stryd y Baddon am 7yh
**10 Ebrill :** Oedfa Gwener y Groglith : Bethel am 10.00. Pregethir gan y Parchedig Andrew Lenny.
**Rhaghysbyseb** : 5 Gorffennaf 2009 : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

**LLOFFION**

**Cydymdeimlwn yn ddwys â:**

- Ella a Pete ar golli chwaer yng nghyfraith
- Cliff, Aubrey, Howard, Ronnie a Colin a'u teuluoedd ar golli brawd yng nghyfraith
- Colin a Wendy Roberts ar golli chwaer ac ewythr

**Swper y Pasg**

Byddwn yn cynnal Swper y Pasg ar y 1af Ebrill. Rhowch eich enwau i Judith erbyn y 25ain Mawrth. Fe fydd yn gyfle i gymdeithasu ac i gofio am arwyddocâd y Swper Olaf yn yr Oruwchystafell. Croeso cynnes i bawb a diolch i Janice am gytuno i gydlynu'r bwyd.

**Torri Record y Byd am Fwyta Bananas Masnach Deg**: Yn ystod pythefnos masnach deg (23.02.09 - 08.03.09) fe fydd sefydliad masnach deg yn ceisio torri'r record am fwyta bananas masnach deg. Os ydych am fod yn rhan o'r fenter hon bwytewch fanana masnach deg rhwng canol dydd, Gwener 6ed Mawrth a chanol dydd, Sadwrn 7fed Mawrth. Rhowch wybod imi faint o fananas y byddwch wedi bwyta ac fe wna i drosglwyddo'r wybodaeth i Arnold Smith o Eglwys San Paul sy'n cydlynu ar ran Aberystwyth. Cewch rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan Masnach Deg : www.fairtrade.org.uk.